# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil

## Cyfarfod Nos Fawrth, Medi 10fed 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Arwel Davies, Geraint Jones, Rhys Jones, Gwynfryn Williams, Huw Edwards, Rhys Richards (dros Zoom), Cyng. Elwyn Edwards.
Ymddiheuriadau: Catrin Roberts.

Croesawyd Huw Edwards i'w gyfarfod cyntaf.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Gorffennaf 9fed 2024) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant **–Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.

## iv) Gohebiaeth

a) Cwmni Pum Plwy Penllyn.
i) Trafnidiaeth Gymunedol – cais am lythyr o gefnogaeth. **Cytunwyd i anfon llythyr.**

b) Cyngor Gwynedd.
i) Cadarnhau cyfarwyddwyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl.
ii) Ymgynghoriad system pleidlais sengl drosglwyddadwy.
iii) Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd - Galw am Safleoedd.
iv) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd
v) Llwybrau troed – diweddariad
vi) Rhybudd gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro, Arenig 19/09/24.

c) Un Llais Cymru.
i) Canllaw ar rymoedd a pholisïau.
ii) Presenoldeb Aelodau – y Rheol 6 Mis.

d) Amrywiol.
i) Camu i'r Copa – Triathlon Y Bala, 1/9/24.
ii) Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Dweud eich dweud ar sut mae eich cymdogaeth yn cael ei phlismona.
iii) Cofeb Tryweryn – diweddariad.
iv) Pen Solar – gwybodaeth am grantiau cymunedol i osod paneli solar ayyb ar adeiladau cymunedol.

## v) Ceisiadau Cynllunio.

NP5/72/89C – Gosod ffenestri a boeler newydd, gosod paneli solar a chodi twnnel polythen. Hafod y Nant, Parc.
NP5/72/250G - Amrywio Amod Rhif 2 ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio NP5/72/250B. Cronfa Ddŵr Llyn Celyn,
**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.**

**vi) Materion Ariannol**
a) Derbyniadau – ail randal y Praesept - £2,250.
b) Cytunwyd i – Archwilio Cymru (archwiliad allanol 2021/22) a Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol 2023/24)
c) Ceisiadau Ariannol – Cerebal Palsy Cymru, Clwb Hoci'r Bala. **Cytunwyd i gyfrannu £100 i Glwb Hoci'r Bala rwan ac i gadw cais gyda gweddill o'r ceisiadau a'r trafod ym mis Mawrth.**

**vii) Materion lleol.**
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH HYDREF 8FED YN NEUADD MAESYWAEN.**